
# 6: Plas yn Rhiw - Llanbedrog

**Pellter / Distance: 28.3km/17.6m**





Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatad yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
Hawlfraint y Goron
Mae ailgynhyrchu heb ganiatad yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office.
Crown copyright
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Cyngor Gwynedd - 100023387 - 2007


Cyngor Gwynedd Council

Yn fuan wedi mynd trwy bentref bach y Rhiw ewch o amgylch godrau Mynydd Rhiw cyn cyrraedd siambr gladdu o'r Oes Gerrig. O hyn ymlaen rydych mewn gwlad bur wahanol gan fod creigiau'r arfordir yn llawer meddalach yma. O ganlyniad daw traethau eang yr arfordir deheuol i'r amlwg lle mae'r môr wedi cael rhwydd hynt i naddu'r graig a'r clai a chreu tywod mân. Porth Neigwl yw'r cyntaf a'r mwyaf o'r rhain gyda'r golygfeydd ar ei hyd o'r gorllewin ymysg y rhai mwyaf cofiadwy o'r daith i gyd.

Cofiwch aros yn Llangian gan fod un arall o eglwysi hynafol yr ardal yma gyda philer o ithfaen wedi'i hysgythru mewn Lladin fel carreg fedd i feddyg yn y fynwent. Mae'r llwybr wedyn yn ymlwybro trwy Llanengan ac ymlaen at Borth Ceiriad ar benrhyn Mynydd Cilan. Mae'r ardal hon hefyd yn hafan i fywyd gwyllt heddiw gyda gwenyn, sboncyn y gwair, chwilod a phili-palaod amrywiol ymysg y creaduriaid bychain sy'n cartrefu yma ynghyd ag adar y môr sy'n nythu ar y clogwyni.

Wrth adael ardal Cilan daw ynysoedd St Tudwal i'r golwg, dyma arwydd eich bod yn agosáu at fwrlwm pentref Abersoch sydd yn boblogaidd gydag ymwelwyr.

Soon after passing through the hamlet of Rhiw you will go around the foot of Mynydd Rhiw before nearing a burial chamber from the later Stone Age. From now on you are in a quite different environment since the coastal rock is far softer here. This results in spacious beaches characteristic of the southern coast where the sea has been free to erode the rock and clay to form sand. Porth Neigwl or Hell's Mouth is the first and biggest of these and the views from the western end are among the most memorable of the whole journey.

Remember to take a break at Llangian since it has another of the area's ancient churches with a granite piller inscribed in Latin as a doctor's gravestone in the cemetery. The path then winds through Llanengan and onwards to Porth Ceiriad and the Mynydd Cilan peninsula. This stretch of coast is also a haven for wildlife today with bees, wasps, crickets, beetles and butterflies of all sorts amongst the smaller creatures that live here together with various seabirds nesting on the cliffs.

After departing from Cilan the islands of St Tudwal come into view, a sign that you are close to the popular tourist village of Abersoch.

*Llurs/Razorbill*

